



Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2023

Adroddiad Cam yr Haf



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
96/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
28/09/2023



ISBN Digidol: 978-1-83504-746-0

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2023

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2023: Adroddiad Cam yr Haf

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight



Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-83504-746-0

28 Medi

© Hawlfraint y Goron 2023



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1. Prif Ganfyddiadau	2
2. Cefndir a Methodoleg.....	4
3. Perfformiad dros yr Haf.....	5
4. Marchnad Deuluol a Gwyliau Ysgol	12
5. Archebion ymlaen llaw ar gyfer gweddill 2023 a hyder	16
6. TXGB a Dulliau Archebu	20

1. Prif Ganfyddiadau

Blwyddyn dawel yn parhau

- 1.1 Mae un o bob pump (20%) o fusnesau wedi cael mwy o gwsmeriaid yr haf hwn na'r haf diwethaf, ac mae dau arall o bob pump (40%) wedi cael yr un lefel. Fodd bynnag, mae dau o bob pump (40%) wedi cael llai. Mae pedwar rhanbarth Cymru i lawr ar ôl pwysu a mesur.
- 1.2 Dangosodd adroddiad baromedr mis Mehefin mai tywydd ansicr a diffyg incwm gwario oedd y rhesymau allweddol y tu ôl i archebion ymlaen llaw tawel ar gyfer yr haf, ac mae'n ymddangos bod y themâu hyn wedi parhau. Mae tua hanner (48%) y rhai â llai o gwsmeriaid yn nodi 'pobl â diffyg incwm gwario' fel ffactor allweddol, ac mae 46% yn nodi 'tywydd'.

Dim ond y sector atyniadau sydd wedi gweld lefelau ymwelwyr yn codi

- 1.3 Mae bron i hanner (46%) yr atyniadau wedi cael mwy o ymwelwyr yr haf hwn, o gymharu â dim ond 24% sy'n nodi gostyngiad. Maent yn mynd yn groes i'r duedd – yn enwedig os ydynt dan do ac felly wedi elwa ar dywydd gwael ar adegau yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae pob sector arall yn adrodd eu bod i lawr ar ôl pwysu a mesur, yn enwedig darparwyr gweithgareddau (mae 62% i lawr) a meysydd carafanau a gwerysilla (mae 48% i lawr).

Lefelau archebu ymlaen llaw yn yr hydref

- 1.4 Yn gynnar ym mis Medi, gwelwyd gwelliant sylweddol yn y tywydd, ac roedd lefelau deiliadaeth llety ar adeg y cyfweliadau yn 63% fesul gweithredwr ar gyfartaledd. Mae deiliadaeth wedi'i harchebu yn disgyn yn eithaf cyflym i fis Hydref (43%) a mis Tachwedd (24%). Fodd bynnag, dywed rhai gweithredwyr ei bod yn anodd rhagweld oherwydd y duedd archebu munud olaf amlwg iawn.

Marchnad deuluol a gwyliau haf yr ysgol

- 1.5 Ar gyfartaledd, mae teuluoedd â phlant oed ysgol wedi cyfrif am tua hanner busnes un gweithredwr yn ystod gwyliau ysgol yr haf hwn. Mae'r gyfran ar ei huchaf (dros 60%) ymhlith atyniadau a meysydd carafanau, ac ar ei hisaf (25%) mewn llety â gwasanaeth.
- 1.6 Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol i'w adrodd rhwng lefel y busnes yn ystod rhan gyntaf gwyliau haf yr ysgol a'r rhan ddiweddarach. Mae'n bosibl bod tywydd llawer gwell tua diwedd y gwyliau wedi dylanwadu ar y canlyniad hwn (h.y. efallai y byddai gweithredwyr wedi bod yn brysurach yn gynnar oni bai am dywydd gwael).

Ymwybyddiaeth a diddordeb mewn Tourism Exchange Great Britain (TXGB)

- 1.7 Roedd un o bob deg (10%) o weithredwyr yn ymwybodol o TXGB cyn y cyfweliad. O'r rhain, mae tua un o bob pump (21%) naill ai'n ei ddefnyddio nawr neu'n bwriadu ei ddefnyddio.

1.8 Ar ôl clywed disgrifiad o TXGB, mae 16% o'r rhai nad oeddent yn ymwybodol ohono o'r blaen yn dweud ei fod yn 'bendant' yn swnio fel rhywbeth y byddai ganddynt ddiddordeb mewn dysgu mwy amdano, a dywed 42% arall ei fod 'efallai' yn rhywbeth yr hoffent ddysgu mwy amdano.

Lefelau hyder

1.9 Mae 15% o weithredwyr yn dweud eu bod yn 'hyderus iawn' am redeg y busnesau yn broffidiol eleni, ac mae 43% arall yn dweud eu bod yn 'weddol hyderus'.

2. Cefndir a Methodoleg

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam hwn yn edrych ar berfformiad yr haf a lefelau archebu ar gyfer gweddill 2023. Mae pynciau ad-hoc y tro hwn yn cynnwys y farchnad deuluol (gyda phlant oed ysgol) a diddordeb posibl yn TXGB.

Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

2.2 Rydym wedi cynnal 902 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.3\%$. Mae cydbwysedd y sampl fesul rhanbarth a sector yn adlewyrchu'n fras y diwydiant yng Nghymru.


Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	104	51	76	30	261
Llety hunanddarpar	69	71	111	42	293
Meysydd carafanau / gwersylla	49	33	24	8	114
Hostelau	6	4	7	3	20
Atyniadau	31	23	22	27	103
Gweithredwyr gweithgareddau	14	8	15	8	45
Bwytai / tafarndai / caffis	14	10	22	20	66
Cyfanswm	287	200	277	138	902

2.3 Mae 68% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau heb eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio.

2.4 Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 30 Awst ac 11 Medi.

3. Perfformiad dros yr Haf

Perfformiad yr haf fesul sector



Haf siomedig i lawer

3.1 Dangosodd baromedr mis Mehefin y gallai'r haf hwn fod yn dawel pe na bai'r tywydd da yn cyrraedd ar yr amser iawn. Yn anffodus i'r diwydiant, ni wnaeth hynny. Cafodd rhan gynnar y prif dymor ei rwystro gan dywydd gwlyb a gwyntog. Yn rhannol o ganlyniad, mae lefelau ymwelwyr yr haf hwn wedi bod i lawr ym mhob sector heblaw am atyniadau.

"Aethon ni'n dawel dros ben o fis Gorffennaf ymlaen. Hon fu ein blwyddyn waethaf."
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

"Oherwydd y tywydd, roedden ni 50% yn is na'r haf diwethaf"
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

"Mae wedi bod mor dawel. Er enghraifft, dim ond dau giniäwr oedd gennym ni yn ystod yr amser cinio hwn"
Bwyty, De-orllewin

3.2 Un o'r prif resymau pam fod y sector atyniadau yn perfformio'n dda yn ei gyfanrwydd yw bod gan lawer ddarpariaeth dan do (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae rhai yn dweud eu bod wedi perfformio'n dda yn ystod y tywydd garw oherwydd nad oedd pobl yn mynd i'r traeth fel arfer.

"Roedd y tywydd yn ofnadwy felly roedden ni'n brysurach"
Atyniad, Gogledd

3.3 Busnesau sy'n dibynnu fwyaf ar y tywydd sydd wedi cael y trafferthion mwyaf, yn enwedig meysydd carafanau a gweryslla a gweithredwyr gweithgareddau.


“Roedd y carafanau sefydlog a theithiol yn iawn ond nid oedd unrhyw pebyll bron oherwydd y tywydd”

Maes carafanau a gweryslla, Canolbarth

“Rydym yn hollol ddibynnol ar y tywydd, sy'n esbonio'r perfformiad gwael iawn”

Gweithredwr gweithgareddau, De-ddwyrain

Perfformiad yr haf fesul rhanbarth



Haf heriol i bob rhanbarth

3.4 Mae pob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru yn adrodd eu bod i lawr ar ôl pwysu a mesur ar gyfer yr haf. Mae busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru wedi gwneud ychydig yn well na'r rhanbarthau eraill, er bod y rhanbarth hwn hefyd i lawr ar ôl pwysu a mesur. Gwell cynnyrch / cynnig yw'r ffactor cadarnhaol a ddyfynnir amlaf yn y De-ddwyrain ymhlith y rhai sy'n perfformio'n dda.

“Nid ydym wedi gweld haf fel hyn ers saith mlynedd, ers 2016. Rydyn ni wedi gwneud yn dda iawn. Gwnaethon ni lawer o arian ym mis Awst ... rydyn ni wedi bod yn cynnal digwyddiadau rheolaidd.”

Atyniad, De-ddwyrain

“Rydym wedi cyflwyno bwydlenni newydd, wedi trefnu nosweithiau parti, wedi gwella ein marchnata”


Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

“Gwael iawn – dydw i ddim yn gwybod beth sy'n digwydd. Cafodd y ddwy archeb a gefais eu canslo.”

Llety â gwasanaeth, Canolbarth

Rhesymau dros fod yn brysurach

C2 "A oes unrhyw resymau penodol pam eich bod wedi cael mwy o gwsmeriaid yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf?"



Maint y sampl: 178

Holwyd C2 i fusnesau sydd â mwy o gwsmeriaid na'r haf diwethaf

Buddsoddiad yn y cynnyrch ac mewn marchnata

3.5 Mae amodau masnachu wedi bod yn heriol ond mae rhai busnesau wedi llwyddo i gynyddu lefelau eu cwsmeriaid trwy fuddsoddi'n rhagweithiol yn eu cynnyrch a/neu eu marchnata. Mae enghreifftiau'n cynnwys targedu marchnadoedd newydd, buddsoddi mewn cyfleusterau bwyd a diod neu wella ansawdd y gwasanaethau a gynigir eisoes.

“Rydyn ni wedi bod yn gwneud llawer ar y cyfryngau cymdeithasol ac rwy'n credu bod hyn yn cael effaith. Rydyn ni hefyd wedi agor siop goffi.”

Atyniad, Gogledd

“Rydyn ni wedi gwario llawer o arian ar y sefydliad ac mae'r newidiadau wedi bod yn llwyddiannus. Mae ansawdd ein bwyd wedi codi i safon bwyty.”

Llety â gwasanaeth, Gogledd


Mae cwsmeriaid sy'n dychwelyd yn cynnig llawer o sefydlogrwydd yn ystod cyfnod heriol

3.6 Mae gan rai gweithredwyr sydd wedi bod yn y diwydiant ers amser maith sylfaen graidd o gwsmeriaid sy'n dychwelyd yn ffyddlon bob blwyddyn.

"Dydyn ni ddim yn deall sut mae eleni wedi bod yn arbennig o dda. Yr unig beth yw bod gennym ni gwsmeriaid sy'n dychwelyd."
Llety hunanddarpar, Canolbarth

Rhesymau dros fod yn dawelach

C3 "A oes unrhyw resymau penodol pam eich bod wedi cael llai o gwsmeriaid yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf?"



Maint y sampl: 343

Holwyd C3 i fusnesau sy'n derbyn llai o gwsmeriaid na'r haf diwethaf

Diffyg incwm gwario

3.7 Fel sydd wedi bod yn wir drwy gydol eleni hyd yn hyn, mae diwydiant twristiaeth Cymru yn cael ei lesteirio gan ddiffyg incwm gwario defnyddwyr. Mae hyn yn achosi nifer o heriau:

- Mae llai o archebion
- Mae arosiadau yn fyrrach
- Mae cwsmeriaid yn gwario llai pan fyddant yn y gyrchfan
- Mae gweithredwyr yn ei chael yn anodd codi eu prisiau yn unol â chostau chwyddedig

“Rwy’n meddwl bod pobl wir yn dechrau teimlo’r esgid yn gwasgu. Mae pawb eisiau bargaen. Maen nhw’n gofyn a fydd gostyngiad os ydynt am aros am drydedd noson”
Llety hunanddarpar, Canolbarth

“Mae wedi bod yn llawer tawelach eleni oherwydd y tywydd a diffyg incwm. Mae pobl yn fwy cynnil.”
Bwyty, Gogledd

“Mae’n edrych yn llwm iawn. Mae pobl yn nerfus yn gwario arian ar wyliau. Rydyn ni newydd gael rhywun yn canslo tair wythnos.”
Llety hunanddarpar, Canolbarth

“Mae eleni wedi bod yn llawer tawelach na’r llynedd. Mae eraill mewn busnesau tebyg yn dweud yn union yr un peth. Rydym bron i 50% yn is na’r llynedd. Mae’r hyn rydyn ni’n ei ddarparu yn brofiad moethus, nid hanfodol.”
Gweithredwr gweithgareddau, De-ddwyrain

“Rydyn ni’n cael arosiadau byrrach - mwy o rai dwy noson yn hytrach na phedair noson. Llauer o bobl yn dod ac yn gadael, sy’n costio mwy i ni. Mae ein deiliadaeth 10% yn is na’r llynedd.”
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

“Dim ond pythefnos oedd gen i yn ystod gwyliau’r ysgol. Nid yw pobl yn tueddu i aros am wythnos nawr. Maen nhw’n dueddol o ddod am benwythnosau.”
Llety hunanddarpar, Gogledd

Roedd tywydd gwael yn difetha ddechrau’r haf

3.8 Adroddodd baromedr mis Mehefin fod archebion ymlaen llaw ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst braidd yn dawel. Roedd gweithredwyr yn disgwyl i hyn newid gydag archebion munud olaf pe bai tywydd da yn dod ar yr amser iawn. Yn anffodus cymerodd tan ddiwedd mis Awst i’r tywydd yn y DU ddod yn wirioneddol hafaid, ac erbyn hynny roedd y diwydiant eisoes wedi colli llawer o gyfleoedd ar gyfer archebion munud olaf hynny.

“Mae wedi bod yn drychinebus. Mae pobl wedi dweud bod traeth Tresaith wedi bod yn wag. Ni allwn feio’r tywydd yn unig gan fod pobl fel arfer yn archebu eu gwyliau ymlaen llaw, waeth beth fo’r tywydd. Bu llawer o bobl yn canslo hefyd. Rwy’n meddwl, yn anffodus, bod hyn yn arwydd o’r amseroedd”
Llety hunanddarpar, Canolbarth

“Pan oedd y tywydd yn braf ym mis Awst y llynedd, roedden ni’n arfer cael pobl yn sefyll y tu allan yn aros i ddod i mewn pan fyddwn ni’n agor am 10am. Wnaeth hynny ddim digwydd eleni.”
Atyniad, Canolbarth Cymru


Ymwelwyr o’r DU yn mynd dramor

3.9 Mae rhai yn credu eu bod wedi cael haf tawelach na’r llynedd oherwydd bod pobl o’r DU yn mynd ar eu gwyliau dramor.

“Roedd mis Awst yn erchyll oherwydd y tywydd a phobl yn mynd dramor eto”
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

Perfformiad haf fesul marchnad

C4 "A yw nifer y cwsmeriaid yr haf hwn o ... wedi bod i fyny, i lawr neu'r un peth o'i gymharu â'r haf diwethaf?"



Maint y sampl: Amrywiol

‘Mae atebion ‘ddim yn gwybod’ a ‘ddim yn berthnasol’ wedi eu heithrio

Llai o ymwelwyr o Gymru a'r DU; marchnadoedd tramor yn fwy sefydlog

3.10 Mae'r haf wedi bod yn dawel oherwydd bod marchnadoedd Cymru a'r DU y tu allan i Gymru i lawr. Mae'r marchnadoedd hyn yn cyfrannu'r rhan fwyaf o'r twristiaid i Gymru/ynghymru.

“Mae pobl yn archebu penwythnosau yn hytrach nag wythnosau. Yn bendant bu cwmp ym marchnad y DU.”
Llety hunanddarpar, Gogledd

“Rydyn ni fel arfer yn cael mwy o bobl o Loegr ond maen nhw wedi bod i lawr 40% eleni”
Atyniad, De-orllewin

3.11 Fodd bynnag, mae adborth ar lefelau ymwelwyr tramor yn fwy cytbwys. Mae rhai gweithredwyr wedi gweld llai yr haf hwn, ond mae cyfran debyg wedi gweld mwy. Mae llawer o bobl o wledydd eraill wedi'u crybwyll

“Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, rydyn ni wedi cael cymaint o ymwelwyr o dramor ag rydyn ni wedi'i gael o'r DU, yn enwedig Gogledd America, Awstralia, Seland Newydd a Gogledd Ewrop.”
Llety â gwasanaeth, Gogledd

“Cawsom nifer o grwpiau twristiaeth o Tsieina – cwbl annisgwyl”
Atyniad, De-orllewin

“Rydyn ni wedi cael llawer mwy o westeion tramor, yn enwedig o'r Iseldiroedd a'r Almaen”
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

*“Ers Brexit rydyn ni wedi colli ein grwpiau ysgolion tramor gan fod angen pasbortau
arnyn nhw nawr yn lle’r cardiau adnabod roedden nhw’n arfer eu defnyddio.”*

Hostel, Canolbarth


*“Rydyn ni wedi cael cymysgedd dda eleni, tipyn o ymwelwyr rhyngwladol – llawer o
Iseldirwyr, Almaeneg a Japaneaidd”*

Atyniad, Gogledd

4. Marchnad Deuluol a Gwyliau Ysgol

Rhannau cynharach o'r gwyliau yn erbyn rhannau diweddarach

C5 "Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich lefel o gwsmeriaid ar wahanol adegau yn ystod gwyliau haf yr ysgol eleni?"



Maint y sampl: 902

Dim gwahaniaeth arwyddocaol i'w adrodd


- 4.1 Nid yw mwyafrif (62%) y busnesau wedi profi unrhyw wahaniaeth amlwg yn lefelau cwsmeriaid rhwng rhan gynharaf a hwyrach y gwyliau ysgol yr haf hwn, ac ymhlith y lleiafrif sydd wedi profi, nid yw'r gwahaniaeth yn gwbl amlwg.
- 4.2 Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried effaith bosibl y tywydd ar y canfyddiadau hyn. Cafodd y gwyliau ddechrau gwael o ran y tywydd eleni wrth i safle'r jetlif ddod ag wythnosau o wynt a glaw gefn wrth gefn i Ynysoedd Prydain. Ni chyrrhaeddodd pwysedd uchel hirfaith gyda chynhesrwydd a heulwen tan yn ddiweddarach ym mis Awst a gallai hyn fod wedi cynyddu'r lefelau cwsmeriaid tua diwedd y gwyliau nag a fyddai wedi bod yn arferol.

"Roedd yn brysurach yn rhan olaf gwyliau haf yr ysgol. Rwy'n meddwl bod pobl wedi mynd dramor eleni yn hytrach nag aros yn y DU, o bosibl oherwydd y tywydd."
Atyniad, Canolbarth Cymru

"Roedd yn dawel ar ddechrau'r haf – yna fe ddechreuodd fynd yn brysurach."
Llety hunanddarpar, De-orllewin

Marchnad deuluol

C6 "Faint o'ch ymwelwyr yn ystod gwyliau haf yr ysgol sydd wedi'i wneud o deuluoedd â phlant oed ysgol?"



Maint y sampl: 902

Lledaeniad eang iawn o atebion

- 4.3 Gan gymryd pwyntiau canol y bandiau ateb uchod, mae teuluoedd â phlant o oedran ysgol wedi cyfrif am tua hanner (47%) y cwsmeriaid ar gyfartaledd fesul gweithredwr yn ystod gwyliau haf yr ysgol eleni. Fel y gwelir o'r siart uchod, mae hyn yn amrywio'n fawr yn ôl gweithredwr o'r rhai sy'n gwasanaethu'r farchnad hon bron yn gyfan gwbl ar yr adeg hon o'r flwyddyn i'r rhai nad ydynt yn derbyn plant o gwbl.
- 4.4 Mae'r atebion yn amrywio fesul sector. Mae'r cyfrannau cyfartalog uchaf o deuluoedd yn cael eu hadrodd ymhlith atyniadau (64%) a meysydd carafanau a gwersylla (61%), tra bod gweithredwyr llety â gwasanaeth wedi adrodd dim ond 25% ar gyfartaledd. Dywed tua thraean (32%) o weithredwyr llety â gwasanaeth nad ydynt wedi cael unrhyw blant o gwbl. Weithiau, y polisi yw peidio â chaniatáu iddynt ddod i mewn.

“Yn benodol nid ydym yn darparu ar gyfer teuluoedd a phlant ... mae gennym ni ychydig o gwsmeriaid sy'n gweithio mewn ysgolion, felly'r peth olaf maen nhw eisiau [ar wyliau] yw cael eu hamgylchynu gan blant.”

Llety â gwasanaeth, Gogledd

“Rydym yn canolbwyntio ar deuluoedd felly teuluoedd sy'n defnyddio ein llety i gyd dros y gwyliau”

Llety hunanddarpar, Canolbarth

- 4.5 Mae'r atebion hefyd yn amrywio fesul rhanbarth, gyda 57% o deuluoedd ar gyfartaledd yn Ne-orllewin Cymru, o gymharu â Chanolbarth Cymru ar gyfartaledd o 36%.

“Fel arfer mae tua 95% o ymwelwyr yn deuluoedd”
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

“Dydyn ni byth yn cael plant i aros – mae hynny’n fwy i’r farchnad hunanddarpar”
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

Dywed rhai fod y farchnad deuluol wedi bod i lawr yr haf hwn

4.6 Dywed rhai gweithredwyr y bu gostyngiad amlwg yn nifer y teuluoedd sy'n ymweld yr haf hwn o gymharu â'r arfer. Credir mai fforddiadwyedd yw'r prif reswm.

“Fel arfer byddai tua 30% o’n cwsmeriaid yn cael eu gwneud gan deuluoedd ond prin iawn yw'r teuluoedd eleni.”

Llety â gwasanaeth, Gogledd

“Rydyn ni wedi sylwi bod nifer y teuluoedd wedi gostwng yn sylweddol eleni, yn fwy nac unrhyw gwsmeriaid eraill”

Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

“Rydym yn brofiad moethus. Mae’n gost fawr i deulu o bedwar.”

Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

Cyfrannau teuluoedd fesul marchnad

4.7 Ymhlith y gweithredwyr sy'n derbyn unrhyw deuluoedd â phlant o oedran ysgol, mae'r teuluoedd hyn wedi'u rhannu'n fras fel a ganlyn:


- 26% o Gymru
- 65% o'r DU y tu allan i Gymru
- 9% o dramor

4.8 Mae'r gyfran dramor yn weddol gyson yn ôl gweithredwyr llety/gweithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety ac yn ôl rhanbarth, ond mae'r cydbwysedd rhwng Cymru a'r DU yn amrywio. Mae cyfran y teuluoedd o Gymru ymhlith gweithredwyr sy'n derbyn unrhyw deuluoedd yn uwch yn Ne-ddwyrain Cymru (41%) a De-orllewin Cymru (36%) o gymharu â Chanolbarth Cymru (23%) a Gogledd Cymru (19%).

4.9 Mae cyfran y teuluoedd o Gymru hefyd yn uwch ymhlith y rhai nad ydynt yn weithredwyr llety (42%) na gweithredwyr llety (22%). Mae'n debyg bod y farchnad breswyl leol yn cyfrannu at y gwahaniaeth hwn.

Cyflogi staff oedran ysgol

C9 "Pa mor ddibynnol yw eich busnes ar gyflogi staff oed ysgol yn ystod gwyliau haf yr ysgol?"



Holwyd C9 i fusnesau sydd fel arfer yn cyflogi staff heblaw'r perchnogion yn ystod gwyliau haf yr ysgol

Rhywfaint o ddibyniaeth ar staff oedran ysgol

4.10 Ymhlith busnesau sydd fel arfer yn cyflogi staff yn ystod gwyliau haf yr ysgol, mae rhai yn dibynnu ar staff oedran ysgol, ond nid yw'r mwyafrif yn dibynnu arnynt.

"Fe wnaethon ni gyflogi rhywun o oedran ysgol ond nid oeddent yn ddibynadwy a nawr rydyn ni'n gwneud gwaith dau unigolyn yr un. O ran staff, mae wedi bod yn ofnadwy."

Bwyty, Gogledd

"Rydym yn dymhorol felly rydym yn dibynnu ar staff oedran ysgol"

Bwyty, Gogledd

4.11 Mae'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch yn gyffredinol wedi cael anhawster i ddod o hyd i staff ers COVID-19, ond eleni dywed rhai perchnogion na allant fforddio cyflogi unrhyw un arall mwyach oherwydd costau cynyddol.


"Rydych ond yn gallu disgrifio'r sefyllfa bresennol fel trychineb. Bu'n rhaid i ni ddiswyddo tri aelod o'n staff, a wnaeth ein brifo ni'n bersonol. Rydyn ni ar ddibyn ariannol."

Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

5. Archebion ymlaen llaw ar gyfer gweddill 2023 a hyder

Archebion ymlaen llaw (gweithredwyr llety)

C10 "Faint o'ch capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer ... ?" (cyf. deiliadaeth a ddangosir)



Mae'r defnydd cyfartalog a archebir ar gyfer pob mis ymhlith busnesau sy'n cymryd archebion am y mis hwnnw

Mae tueddiad archebu munud olaf yn ei gwneud yn anodd llunio rhagfynegiadau

5.1 Mae lefelau archebu ar gyfer mis Medi yn edrych yn eithaf iach, gyda chyfartaledd o 63% o gapasiti wedi'i archebu ar adeg y cyfweliad (yn gynnar yn y mis). I roi hyn yn ei gyd-destun, nododd Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru y llynedd fod deiliadaeth ystafelloedd/unedau cyfartalog o 73% ar gyfer gweithredwyr llety hunanddarpar a llety â gwasanaeth annibynnol ym mis Medi 2022, ac ychydig yn uwch ar gyfer gwestai mwy. O ystyried y duedd archebu munud olaf amlwg, mae'n bosibl y bydd lefelau deiliadaeth eleni ym mis Medi yn cyrraedd lefelau'r llynedd.

"Rwy'n llawn dop ym mis Medi a mis Hydref – mae braidd yn gynnar dweud ar gyfer y gaeaf"

Llety â gwasanaeth, Canolbarth

"Mae mis Medi yn brysur iawn gyda llawer o archebion munud olaf oherwydd y tywydd braf"

Llety â gwasanaeth, De-orllewin

5.2 Y tu hwnt i fis Medi, mae'n anodd rhagweld lefelau deiliadaeth oherwydd y duedd funud olaf. Mae rhai gweithredwyr yn dweud eu bod yn edrych yn dawel fel y mae pethau.

"Mae archebion am weddill y flwyddyn i lawr i sero bron"

Llety hunanddarpar, Gogledd

"Rwy'n meddwl bod pobl yn betrusgar iawn gan fod ganddyn nhw lai o incwm gwario. Mae llawer o bobl yn archebu ar y funud olaf – gwyllo'r tywydd"


Llety hunanddarpar, Canolbarth

"Roedd gennym ni archebion ymlaen llaw ar gyfer eleni ac yna roedd yn dawel ond nawr rydyn ni wedi cael llawer o archebion munud olaf. Mae'n cael ei ysgogi gan y tywydd; mae pobl yn bod yn ofalus lle maen nhw'n gwario eu harian."

Archebion ymlaen llaw fesul sector

C10 Capasiti wedi'i archebu fesul mis mewn llety â gwasanaeth

■ Llawn ■ 75 – 99% ■ 50 – 74%
 ■ 25 – 49% ■ 1 – 24% ■ Dim archebion eto




Deiliadaeth gymedrig:

64% 42% 23% 25%

Maint y sampl: Amrywiol

C10 Capasiti wedi'i archebu fesul mis mewn llety hunanarlwyo

■ Llawn ■ 75 – 99% ■ 50 – 74%
 ■ 25 – 49% ■ 1 – 24% ■ Dim archebion eto




Deiliadaeth gymedrig:

69% 45% 24% 22%

Maint y sampl: amrywiol

C10 Capasiti wedi'i archebu fesul mis mewn llety maes carafanau

■ Llawn ■ 75 – 99% ■ 50 – 74%
 ■ 25 – 49% ■ 1 – 24% ■ Dim archebion eto




Deiliadaeth gymedrig:

50% 36% 26% 21%


Maint y sampl: Amrywiol

SYLWER Mae cau'n dymhorol yn cael ei ystyried gan fod y cwestiwn yn gofyn am % y capasiti sydd 'ar gael'

Hyder mewn rhedeg yn broffidiol



Maint y sampl: 902



Maint y sampl: 902

Lefelau hyder cymysg yn parhau

- 5.3 Mae tua thri o bob pump (58%) o weithredwyr yn hyderus ynghylch rhedeg y busnes yn broffidiol eleni. Mae lefel gymysg yr hyder yn y diwydiant wedi aros yn weddol gyson trwy gydol camau'r arolwg baromedr eleni (ym mis Chwefror, mis Mai a mis Medi).

"Rwy'n credu y bydd yn flwyddyn dda. Rydym wedi gwneud llawer mwy o farchnata ac wedi ymweld â sioeau masnach a chredaf ei fod wedi dod â mwy o bobl i mewn."
Atyniad, Gogledd

"Rydyn ni wedi ein llorio'n llwyr"
Llety hunanddarpar, Canolbarth

- 5.4 Mae llawer o weithredwyr yn gorfod gwneud dewisiadau anodd eleni i gadw eu busnes yn hyfyw. Mae'r amodau economaidd anodd yn effeithio ar rai penderfyniadau prisio a staffio.

"Rwy'n fand un person er mwyn i mi allu ei redeg yn broffidiol. Byddai angen llawer o fusnes ychwanegol arnaf i allu cyflogi rhywun."
Hostel, De-orllewin

"Nid oes digon o bobl yn gwybod am yr ardal. Mae ein bil trydan wedi codi'n sylweddol ond nid ydym wedi codi ein prisiau felly mae maint yr elw wedi plymio."
Parc carafanau, Canolbarth

- 5.5 Un rheswm dros ostwng prisiau yw er mwyn bodloni'r 'rheol 182 diwrnod' newydd i gymhwyso ar gyfer ardrethi busnes yn hytrach na'r ardrethi domestig premiwm ar ail gartrefi.

"Mae'r ymdrech am 182 diwrnod o ddeiliadaeth yn effeithio'n fawr ar fusnes. Mae'n ein gwthio i sefyllfa lle byddwn yn mynd i'r wal y flwyddyn nesaf oherwydd ei fod yn gyrru'r prisiau i lawr."

Llety hunanddarpar, Canolbarth

"I lenwi mis Awst, bu'n rhaid i mi ddisgowntio'r cyfraddau'n sydyn. Rwy'n ei roi i ffwrdd. Rydym ni mewn sefyllfa amhosibl gyda'r rheol 182 diwrnod ac mae pobl yn sylwi ar hyn."


Llety hunanddarpar, Gogledd

Gwahaniaethau yn ôl sector a rhanbarth

5.6 Mae'r hyder i weithredu'n broffidiol eleni yn weddol gyson ar draws y sectorau. Yn ôl rhanbarth, dim ond 6% yn y Canolbarth sy'n 'hyderus iawn'. Mae hyn yn cymharu â 18% ar draws gweddill Cymru.

6. TXGB a Dulliau Archebu

Archebu cyfredol




Gallai ymatebwyr ateb mwy nag un sianel ar-lein (y tri chod ateb uchaf a ddangosir uchod). Roedd y ddau god ateb olaf (all-lein yn unig a dim yn berthnasol) yn godau ateb unigryw.

Amrywiad fesul sector

- 6.1 Gall cwsmeriaid archebu gyda gweithredwyr twristiaeth yng Nghymru trwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys yn uniongyrchol, trwy drydydd parti, ar-lein neu all-lein a gyda neu heb argaeledd byw.
- 6.2 Mae dulliau archebu yn amrywio fesul sector. Gellir archebu bron pob un (94%) llety gwasanaeth, hunanddarpar a hostelau ar-lein mewn rhyw ffordd, fel sydd hefyd yn wir gyda 91% o ddarparwyr gweithgareddau. Mewn cymhariaeth, dim ond 64% o atyniadau a 61% o fwytai / tafarndai / caffis sy'n cymryd archebion ar-lein.
- 6.3 Mae sianeli gwerthu trydydd parti ar-lein yn llawer mwy tebygol o gael eu defnyddio gan weithredwyr llety â gwasanaeth (mae 85% yn eu defnyddio) a hunanddarpar (81%). Mewn cymhariaeth, dim ond 15% o weithredwyr nad ydynt yn weithredwyr llety sy'n eu defnyddio.
- 6.4 Ymhlith busnesau y gellir eu harchebu ar-lein, mae tua hanner (48%) yn defnyddio mwy nag un math o sianel ar-lein (perchenogaeth gydag argaeledd byw / perchenogaeth heb argaeledd byw / trydydd parti). Mae hyn yn arbennig o wir mewn llety â gwasanaeth, lle mae 68% o'r rhai y gellir eu harchebu ar-lein yn dibynnu ar fwy nag un math o sianel ar-lein.

Ymwybyddiaeth o TXGB

C14 "Ydych chi wedi clywed am TXGB, sy'n sefyll am Tourism Exchange Great Britain neu Cyfnewidfa Twristiaeth Prydain Fawr?"




Maint y sampl: 902

Ymwybyddiaeth isel

6.5 Dywed y rhan fwyaf (90%) o fusnesau nad oeddent wedi clywed am TXGB cyn cael eu holi yn yr arolwg hwn. Mae hyn yn wir ar draws pob sector a rhanbarth.

Bwriadau i ddefnyddio TXGB (os yn ymwybodol ohono)

C15 (OS YW'N HYSBYS) "Ydych chi'n...?"



Maint y sampl: 91

Holwyd C15 i fusnesau sy'n ymwybodol o TXGB

Dim llawer o ymrwymiad cyfredol os yn ymwybodol

6.6 Nid yw tua hanner y rhai sy'n ymwybodol o TXGB yn gwybod a fydd eu busnes yn ei ddefnyddio ai peidio. Mae cyfran eithaf isel (21%) naill ai'n ei ddefnyddio nawr neu'n bwriadu ei ddefnyddio.

Adborth gan ddefnyddwyr presennol

6.7 Gan mai dim ond 11 o ddefnyddwyr TXGB sydd yn y sampl, mae adborth yn gyfyngedig ond mae'r pwyntiau allweddol canlynol wedi'u gwneud isod.

Mae'n cymryd amser i ddod i arfer ag ef

6.8 Mae rhai defnyddwyr yn dweud bod TXGB yn cymryd amser i ddod i arfer ag ef ond gall fod yn arf defnyddiol iawn pan fydd ar waith.

“Roedd yn ddryslyd i ddechrau ... ond wedi cael dwy archeb drwyddo drwy ein gwefan ein hunain.”

Llety hunanddarpar, Canolbarth

“Cymerodd ychydig o amser ddod i arfer ag ef, ond mae wedi gwneud argraff fawr arnaf”

Parc carafanau, Canolbarth

Mae rhai wedi cofrestru ond wedi bod yn rhy brysur i'w ddefnyddio'n iawn

6.9 Mae rhai busnesau wedi'u sefydlu gyda TXGB ond nid ydynt eto wedi dod o hyd i'r amser i wneud defnydd da ohono. Ar y cyd ag adborth gan ddefnyddwyr gweithredol, mae'n ymddangos y gall gweithredwyr elwa ar TXGB yn y pen draw ond mae angen iddynt ddod o hyd i'r amser a'r amynedd i gael eu sefydlu.

“Rydym eisoes wedi cofrestru ond nid ydym wedi dechrau ei ddefnyddio eto gan ein bod wedi bod mor brysur”


Parc carafanau, Canolbarth

Diddordeb mewn dysgu mwy

6.10 Darllenwyd y disgrifiad hwn i ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o TXGB cyn y cyfweliad:

“Mae TXGB yn sefyll am Tourism Exchange Great Britain ac yn cael ei hwyluso gan Croeso Cymru a VisitBritain. Mae'n cysylltu systemau archebu a ddefnyddir gan fusnesau twristiaeth y DU, neu eich rhestr eiddo chi, â rhwydwaith byd-eang o lwyfannau dosbarthu y mae defnyddwyr yn archebu drwyddynt. Mae'n wahanol i weithio'n uniongyrchol gyda llwyfan fel booking.com neu Expedia yn yr ystyr y gall y busnes reoli ei brisiau, ei argaeledd a'i gynnwys mewn un lle i'w defnyddio ar draws sianeli gwerthu lluosog, a allai helpu i gynyddu archebion.”

C17 "Ydy TXGB yn swnio fel rhywbeth yr hoffech chi ddysgu mwy amdano?"



Maint y sampl: 811


Holwyd C17 i fusnesau nad ydynt yn ymwybodol o TXGB

Mae gan rai ddiddordeb

6.11 Mae rhywfaint o ddiddordeb yn y diwydiant i ddysgu mwy am TXGB. Mae llawer yn dweud ei fod yn dibynnu ar rai nodweddion. Rydym yn trafod pob un o'r themâu allweddol yn eu tro isod, gan ddechrau gyda'r rhwystrau.

Rhwystrau i ddefnyddio TXGB

C18 "Beth yw'r rhwystrau i ddefnyddio TXGB?"



Maint y sampl: 322

Holwyd C18 i'r rhai nad oes ganddynt unrhyw fwrdd i ddefnyddio TXGB os ydynt yn ymwybodol (C15) neu ddim diddordeb i ddysgu mwy os nad ydynt yn ymwybodol (C17)

Hapus fel yr ydym

6.12 Bod yn fodlon â'r dulliau archebu presennol yw'r rheswm amlwg dros beidio â bod â diddordeb mewn archwilio TXGB. Mae rhai gweithredwyr yn cyfiawnhau eu diffyg diddordeb trwy ddyfynnu lefelau helaeth o archebion presennol, ac nid yw eraill yn dymuno cael mwy o ddeiliadaeth nag y maent yn ei chael yn barod.

“Rydyn ni wedi ein harchebu hyd at ddiwedd y flwyddyn nesaf felly nid oes angen TXGB arnom mewn gwirionedd”
Llety hunanddarpar, De-orllewin

“Rydyn ni yn ein 70au ac mae'r busnes mor llawn ag y dymunwn iddo fod”
Llety â gwasanaeth, Gogledd

Ychydig o berthnasedd i gwsmeriaid craidd

6.13 Yn gysylltiedig â'r thema uchod o fod yn hapus â'r dulliau archebu cyfredol, dywed rhai gweithredwyr na fyddai TXGB yn berthnasol i'w cwsmeriaid craidd. Mae hyn yn nodweddiadol lle mae gan y busnes farchnad arbenigol iawn a/neu grŵp craidd o gwsmeriaid ffyddlon sy'n dychwelyd i archebu'n uniongyrchol.

“Nid yw llwyfannau archebu yn gweithio i ni. Rydyn ni'n anfon neges at ein cleientiaid pan fydd y tywydd yn braf ac maen nhw'n anfon neges yn ôl os ydyn nhw eisïau archebu.”
Gweithredwr gweithgareddau, De-ddwyrain

Ddim yn hoffi trydydd partiön a thalu comisiwn

6.14 Mae rhai busnesau'n meddwl bod TXGB yn swnio fel trydydd parti arall yn dod i'r farchnad i gymryd comisiwn ganddynt.

“Mae'r rhan fwyaf o'r mathau hyn o bethau yn chwilio am ffioedd”
Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

“Gyda'r busnes yn rhedeg bron ar golled, ni allaf ystyried unrhyw gost ychwanegol”
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

Rwy'n hoffi gwybod pwy sy'n dod i mewn i'm heiddo

6.15 Yn dilyn ymlaen o'r thema uchod ar drydydd partiön, mae rhai gweithredwyr llety yn ceisio osgoi eu defnyddio oherwydd eu bod yn hoffi fetio eu gwesteion yn gyntaf. Nid ydynt yn hoffi colli rheolaeth wrth ddefnyddio trydydd parti, ac mae rhai yn dyfynnu profiadau gwael blaenorol o westeion amharchus.

“Y tro diwethaf i mi adael rhywun yn y lle gyda chwmni trydydd parti, gwnaethon nhw ddinistrio fy nhŷ”
Llety hunanddarpar, Gogledd

“Byddai gen i ddiddordeb mewn edrych ar TXGB ond mae archebu lle ar unwaith yn frawychus - dydych chi ddim yn gwybod pwy rydych chi'n mynd i'w gael”
Llety hunanddarpar, Canolbarth

Swnio fel gormod o drafferth

6.16 Nid oes gan rai gweithredwyr prysur yr awydd i edrych i mewn i system newydd y maent yn ei hystyried yn drafferth ychwanegol.

“Mae gen i bentwr enfawr o waith ar fy nesg a fyddwn i ddim eisiau cynhyrfu'r dyfroedd gydag unrhyw beth newydd”
Llety â gwasanaeth, Gogledd

“Dwi ddim yn edrych am fwy o drafferth a mwy o reolau”
Llety hunanddarpar, De-orllewin

Beth yw'r manteision?

6.17 Nid yw rhai yn deall manteision TXGB, o bosibl yn ei ddrysu â threfnydd teithiau ar-lein ac yn teimlo bod ychydig o drefnwyr teithiau ar-lein pwerus eisoes yn rheoli'r farchnad.

“Mae'n bosib bod gen i ddiddordeb, ond mae gan booking.com fonopoli dros y farchnad. Rydych chi'n gweld bod archebion trydydd parti i gyd trwy booking.com.”
Parc carafanau, Gogledd

“Ni fyddent yn dod â chymaint o archebion â booking.com ac Expedia”
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

Rhesymau dros ymgysylltu â TXGB

Estyn allan i farchnadoedd newydd

6.18 Mae gan rai busnesau ddiddordeb mewn dysgu mwy am TXGB oherwydd bod y posibilrwydd o gyrraedd cynulleidfa fyd-eang yn eu cyffroi. Maent yn gwybod na fyddai ganddynt yr adnoddau i wneud hyn heb drydydd parti.

“Yn bendant â diddordeb mewn dysgu mwy. Rydyn ni wedi cael grwpiau o America, Gwlad Belg a Zimbabwe. Gan ein bod yn cynnig mwy na llety yn unig, byddai gennym ddiddordeb mawr mewn hyrwyddo ein busnes yn fyd-eang.”
Llety hunanddarpar, Gogledd

“Mae unrhyw beth y gallwch ei wneud i ehangu eich cynulleidfa yn syniad da”
Llety â gwasanaeth, Gogledd

Mae gwir angen hwb i archebion

6.19 Ar ôl haf siomedig, mae rhai gweithredwyr ar hyn o bryd mewn hwyliau i archwilio sianeli newydd i sicrhau archebion. Mae'r amseriad yn ymddangos yn iawn ar gyfer hyrwyddo TXGB.

“Rydyn ni'n defnyddio llwyfannau archebu ond unrhyw beth all helpu ar hyn o bryd rwy'n fodlon edrych arno oherwydd bod pethau mor dawel. Nid ydym erioed wedi ei weld fel hyn o'r blaen.”

Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

Mae cysylltiad Croeso Cymru yn gwneud iddo swnio'n fwy deniadol

6.20 Mae rhai gweithredwyr yn awyddus i weld Croeso Cymru yn arwain opsiwn amgen i drefnwyr teithiau ar-lein pwerus presennol. Efallai eu bod yn camddeall ychydig o'r hyn y mae TXGB yn ei gynnig, ond mae cyfranogiad Croeso Cymru yn gwneud i'r fenter swnio'n fwy deniadol.

“Mae'n bendant yn rhywbeth y byddwn ni'n edrych arno gan ein bod ni bob amser yn edrych i weithio gyda Croeso Cymru.”

Atyniad, De-orllewin

Rhesymau pam mae angen i weithredwyr wybod mwy

6.21 Mae rhai gweithredwyr 'ar y ffens' ar hyn o bryd am eu diddordeb yn TXGB, gan ddweud ei fod yn dibynnu ar rai ffactorau.

Beth yw'r ffioedd?

6.22 Mae rhai yn disgwyl y bydd defnyddio TXGB yn dod am bris ac felly mae eu diddordeb yn dibynnu ar lefel y comisiwn a godir.

“Mae unrhyw beth nad yw'n costio'r byd ond a fyddai'n cynyddu busnes o ddiddordeb”

Llety hunanddarpar, De-orllewin

“Fe gaf i olwg arno. Os yw'n rhywbeth sy'n codi tâl amdano, dyma'r peth olaf rwyf eisiau ei wneud”

Llety â gwasanaeth, De-orllewin

Mae'n dibynnu a yw'n gydnaws â systemau a sianeli archebu presennol

6.23 Mae TXGB yn gydnaws â llawer o systemau archebu ac yn gysylltiedig â nifer o drefnwyr teithiau ar-lein, ond nid pob un. Mae cydnawsedd â systemau a sianeli presennol a ddefnyddir yn ffactor arwyddocaol.

“Os yw'n gysylltiedig â SuperControl yna byddwn yn ei ystyried. Os nad yw'n cyd-fynd â'r hyn rydyn ni'n ei ddefnyddio eisoes yna nid yw'n rhywbeth y byddwn ni'n ei ystyried.”

Parc carafanau, Canolbarth

“A fyddai'n integreiddio ag Airbnb? Byddai'n rhaid iddyn nhw allu gweithio gyda'i gilydd.”

Llety hunanddarpar, De-orllewin